# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd. Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin ar gyfer y Sul.

**1 Pedr 2: 2-10**
**Y maen bywiol a'r genedl sanctaidd**

**EMYN – Caneuon Ffydd 350**
**Yr Iesu'n ddi-lai**

**MYFYRDOD**
(Byddai o fudd i ni ddarllen Mathew 21: 33-46, a Salm 118:22 ymlaen)

Cefais flas yn ddiweddar ar gyfres *Mynd am dro* ar S4C. Roedd y syniad o bobl yn tywys dieithriaid ar daith o gwmpas llwybrau oedd yn gyfarwydd iddynt yn syml ac yn ddiddorol. Ar ambell i lwybr ceid golygfeydd o fynydd-dir a chwarel, a nentydd a choedwigoedd. Ac yn gymysg gyda'r golygfeydd roedd y tywysydd yn sôn am ychydig o hanes neu arwyddocâd rhyw olygfa, neu dirwedd. Am dirlun oedd yn ymddangos yn sefydlog roedd llawer iawn o amrywiaeth oedd yn wrthgyferbyniol.

A phrofiad nid annhebyg yw cael ein tywys gan Pedr ar daith i adnabod tirwedd newydd ein ffydd.

Cofiwn hyn – roedd Pedr yn siarad efo Cristnogion cynnar nad oeddynt yn Iddewon – hy nid oedd ganddynt stôr o wybodaeth am yr ARGLWYDD. Ac nid oedd yr un ohonynt wedi cyfarfod na gweld Iesu Grist erioed. Fel Iesu Grist ei hun, mae Pedr am i'r rhai ddaeth i gredu ynddo ddeall gymaint â hyn. Bod patrwm ymateb pobl i Iesu Grist boed ar Sul y Blodau lle'r roedd y dorf yn canu eu hosanna wrth ei groesawu, neu yn Nameg y Tenantiaid (Mathew 21:42) bod Salm 118 yn gefnlen i ddeall bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist. Ef yw'r "maen a wrthododd yr adeiladwyr".

Mae Pedr yn dechrau drwy ein herio. Ydych chi'n barod ar gyfer y daith o fod yn Gristion fel dieithryn, fel rhywun sydd a'i fywyd yn cael ei brofi yn y pair, fel rhywun sydd wedi ei eni o'r newydd, fel rhywun sy'n pwyso ar air diogel yr Arglwydd?

Iawn. Felly, y peth cyntaf dwi am i chi wybod am y daith heddiw yw hyn. Nid oes le i ddrygioni, twyll, rhagrith, cenfigen na siarad bychanus. Dyna her i bob yr un ohonom yn syth!

Yn sydyn mae'n newid y darlun. Babanod newydd ein geni ydym, sydd wedi profi tiriondeb yr Arglwydd. Daeth profiad real, a dechrau newydd i'n bywydau. Sut mae babi bach yn tyfu ac yn "cynyddu" meddai? Wel, trwy flysio am laeth ei fam, wrth gwrs. Plentyn claf yw'r plentyn nad yw'n "blysio" am ei fwydo'n gyson! Mae Cristion yn tyfu drwy flysio am laeth ysbrydol pur sef "gair Duw" (1:23-24). Gwantan yw'r rhai nad ydynt yn blysio nac yn tyfu mewn iachawdwriaeth.

Ac yna mewn cyfres o ddarluniau, a chyfeiriadau at yr Ysgrythurau Iddewig, mae Pedr yn disgrifio ymateb pobl i Iesu Grist. Ef yw'r "maen bywiol". Mae'n fyw, mae'n awdur bywyd mae'n dod â gobaith bywiol (pennod 1). Mae'r gwrthgyferbyniadau yn y darlun ei hun yn rhyfeddol. Carreg – oer. Maen caled wedi ei naddu. Eto mae Hwn yn fyw ac yn dwyn bywyd. Yng ngolwg Duw mae'n "etholedig a chlodfawr." Mae wedi ei ddewis ac yn haeddu ei ganmol. Ef sydd ar ganol holl fwriadau Duw. Ond yng ngolwg y byd – un "gwrthodedig gan bobl" ydyw.

Y mae Iesu Grist ym mwriadau Duw yn garreg sylfaen, yn gonglfaen na chawn ein siomi ynddo. Ac er i bobl eraill ei ddibrisio mae'n gonglfaen diogel i holl amcanion a bwriadau Duw. Yr un yw ansawdd y garreg enfawr sy'n gonglfaen y Deml a'r garreg yn ein hesgid sy'n achosi cloffni! Bydd rhai yn cloffi oherwydd Iesu Grist ac yn tramgwyddo wrth haeriadau'r efengyl, ac yn arbennig am le canolog Iesu Grist yn adferiad y greadigaeth.

Gwahanol yw ein hymateb ni sy'n credu ynddo. Yr ydym yn cael "dod ato," ac wrth gael ein gosod ar sail y gonglfaen bywiol down ninnau'n "Deml", yn dŷ ysbrydol bywiog a bywiol. Yr ydym ar yr un pryd yn offeiriaid sy'n offrymu aberthau ysbrydol a chymeradwy yn Iesu Grist.

Os yw ein crefydda ynghlwm wrth adeilad, neu os ydym yn oddefol yn ein disgwyliad mae Pedr am i ni ail-ystyried!

Ac yna mae Pedr yn aralleirio geiriau o Exodus 19. Mae'r eglwys meddai, yn Iddewon a chenedl-ddynion, yn greadigaeth newydd Duw, ac yn gyflawniad bwriadau Duw. Nid ydym fel plant Hosea yn ddieithriaid i ddaioni Duw.

Na, yr ydym yn genedl sanctaidd, yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn bobl briodol i Dduw, yn bobl Dduw, yn rhai a brofodd drugaredd. Yr un rhai sydd i ymwrthod a drygioni, twyll, cenfigen a siarad bychanus yw'r rhai sy'n cyhoeddi ac yn hysbysu yn eu bywydau "gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chwi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef." Goleuni a thrugaredd yn ein profiad sy'n cael ei amlygu mewn goleuni a thrugaredd yn ein moesau. Gadewch i ni roi ein bryd mewn gair a gweithred i "adeiladu" ar y sylfaen gadarn a osododd Duw.

**GWEDDI**

Arglwydd Dduw, fe'th geisiaf di eto heddiw. Fel llawer i un arall dwi'n teimlo ar goll yn y byd fel ag y mae hi. Salwch a salwch a dioddefaint a marwolaeth yw'r cyfan a glywn o'n cwmpas heddiw. Maddau i mi pan fu heintiau'n cerdded ar draws rhannau eraill o'r byd na thalasom sylw i'r niferoedd na'r dioddefaint.

Helpa fi heddiw i adnabod ac adeiladu fy mywyd arnat ti – y maen dewisol, diogel a dymunol. Rho nerth i mi adeiladu fy mywyd – ei ffydd, ei ganolbwynt a'i werthoedd ar ryfeddod yr Arglwydd Iesu Grist.

Wrth godi ac wrth orffwyso, mewn storm a daeargryn – diolch nad yw sylfaen diogel dy ras yn Iesu Grist yn ysgwyd ddim.

Maddau i mi fy meiau a'm gwrthryfel. ............. Diolch bod maddeuant yn bosib yn a thrwy Iesu Grist. Cyflwynaf i ti eto fy anwyliaid ............. cyflwynaf i ti fy nghyd aelodau yng nghapel ................ cyflwynaf i ti yr ysgol leol ............... cadw'r athrawon a'r plant yn dy law ............. cyflwynaf i ti fy meddygfa leol ........... diolch am y rhai sy'n gweithio yno. Cyflwynaf i ti gynghorwyr Sir, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol. Bendithia'n gwlad a'n byd. A thrugarha.

**GWEDDI'R ARGLWYDD**

**Emyn – Caneuon Ffydd 74**
Nad i'm adeiladu'n ysgafn

**Y FENDITH**